| | |
|---|---|
| **Cardiff Council**<br>**Replacement Local Development Plan Examination**<br>**Hearing Session 14 – 09.30-13.00, 1 July 2026**<br><br>**Virtual**<br><br>**Design and Other Matters** | **Cyngor Caerdydd**<br>**Cynllun Datblygu Lleol Newydd Archwiliad**<br>**Sesiwn Gwrandawiad 14 – 09.30 – 13.00, 1 Gorffennaf 2026**<br><br>**Rhithwir**<br><br>**Dyluniad a Materion Eraill** |
| **Issue - Whether the policies relating to design, tall buildings, community facilities, open space and placemaking are justified, clear and effective in securing high-quality and sustainable development.** | **Mater - A yw'r polisïau sy'n ymwneud â dylunio, adeiladau uchel, cyfleusterau cymunedol, mannau agored a chreu lleoedd yn gyfiawn, yn glir ac yn effeithiol wrth sicrhau datblygiad cynaliadwy o ansawdd uchel.** |
| **1. Opening and introductions** | **1. Agor a chyflwyniadau** |
| **2. Design** | **2. Dyluniad** |
| 2.1 How does the Plan's overall design framework ensure that development achieves high-quality outcomes that are locally distinctive and responsive to Cardiff's character, rather than generic design solutions? | 2.1 Sut mae fframwaith dylunio cyffredinol y Cynllun yn sicrhau bod datblygiad yn cyflawni canlyniadau o ansawdd uchel sy'n nodweddiadol o'r ardal leol ac yn ymatebol i gymeriad Caerdydd, yn hytrach nag atebion dylunio generig? |
| 2.2 To what extent do the design policies provide a clear and consistent basis for decision-making, while retaining sufficient flexibility to respond to site-specific circumstances? | 2.2 I ba raddau y mae'r polisïau dylunio yn darparu sylfaen glir a chyson ar gyfer gwneud penderfyniadau, tra'n cadw digon o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau safle-benodol? |
| 2.3 How do the Plan's design policies integrate considerations of accessibility, inclusivity and the needs of different user groups across all types and scales of development? | 2.3 Sut mae polisïau dylunio'r Cynllun yn integreiddio ystyriaethau hygyrchedd, cynhwysiant ac anghenion gwahanol grwpiau defnyddwyr ar draws datblygiadau o bob math a maint. |
| 2.4 In what ways do the design policies support sustainable development objectives, including climate resilience, active travel, and long-term adaptability of buildings and places? | 2.4 Ym mha ffyrdd y mae'r polisïau dylunio yn cefnogi amcanion datblygu cynaliadwy, gan gynnwys gwrthsefyll newid hinsawdd, teithio llesol, ac addasrwydd hirdymor adeiladau a lleoedd? |
| 2.5 How have the Plan's policies in relation to securing good quality and sustainable design been influenced by the experience of recent large-scale developments in the City, such as at North-West Cardiff? | 2.5 Sut mae polisïau'r Cynllun mewn perthynas â sicrhau dylunio cynaliadwy o ansawdd da wedi cael eu dylanwadu gan brofiad datblygiadau diweddar ar raddfa fawr yn y Ddinas, megis yng Ngogledd-orllewin Caerdydd? |

| | |
|---|---|
| **3. Tall Buildings**<br><br>3.1 Does the Plan distinguish between locations where tall buildings are actively supported, locations where they may be acceptable in principle, and locations where they would be inappropriate?<br>3.2 How clearly does the Plan define what constitutes a tall building outside the city centre, and is this definition sufficiently precise to ensure consistent application across different contexts?<br><br>3.3 How do the policies ensure that tall buildings make a positive contribution to townscape, skyline and local character, including the protection of important views and heritage assets?<br><br>3.4 How does the Plan address the wider impacts of tall buildings on surrounding areas, including amenity, microclimate, infrastructure capacity and wellbeing?<br><br>**4. Community Facilities**<br><br>4.1 How does the Plan identify the need for new or improved community facilities, and how is this evidence reflected in the spatial strategy and site allocations?<br><br>4.2 In what ways does the Plan support community involvement in shaping the provision, location and design of community facilities?<br><br>4.3 How does the Plan balance flexibility for changing community needs with certainty for the long-term provision of facilities?<br><br>4.4 Should theatres, music venues or sports clubhouses be included in the examples of community facilities?<br><br>**5. Open Space**<br><br>5.1 Where development affects existing open space, how does the Plan ensure that any compensatory provision is appropriate in terms of quantity, quality, accessibility and location? | **3. Adeiladau Uchel**<br><br>3.1 A yw'r Cynllun yn gwahaniaethu rhwng lleoliadau lle mae adeiladau uchel yn cael eu cefnogi'n weithredol, lleoliadau lle gallant fod yn dderbyniol mewn egwyddor, a lleoliadau lle byddent yn amhriodol?<br>3.2 Pa mor glir y mae'r Cynllun yn diffinio beth yw adeilad uchel y tu allan i ganol y ddinas, ac a yw'r diffiniad hwn yn ddigon manwl i sicrhau bod y polisi’n cael ei gymhwyso’n gyson ar draws gwahanol gyd-destunau?<br><br>3.3 Sut mae'r polisïau yn sicrhau bod adeiladau uchel yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at dreflun, nenlinell a chymeriad lleol, gan gynnwys gwarchod golygfeydd pwysig ac asedau treftadaeth?<br><br>3.4 Sut mae'r Cynllun yn mynd i'r afael ag effeithiau ehangach adeiladau uchel ar ardaloedd cyfagos, gan gynnwys amwynder, microhinsawdd, capasiti seilwaith a lles?<br><br>**4. Cyfleusterau Cymunedol**<br><br>4.1 Sut mae'r Cynllun yn nodi'r angen am gyfleusterau cymunedol newydd neu well, a sut mae'r dystiolaeth hon yn cael ei hadlewyrchu yn y strategaeth ofodol ac wrth ddyrannu’r safleoedd?<br><br>4.2 Ym mha ffyrdd y mae'r Cynllun yn cefnogi cyfranogiad y gymuned wrth lunio darpariaeth, lleoliad a dyluniad cyfleusterau cymunedol?<br><br>4.3 Sut mae'r Cynllun yn cydbwyso hyblygrwydd ar gyfer anghenion cymunedol sy'n newid gyda sicrwydd ar gyfer darparu cyfleusterau yn y tymor hir?<br><br>4.4 A ddylai theatrau, lleoliadau cerddoriaeth neu dai clwb chwaraeon gael eu cynnwys yn yr enghreifftiau o gyfleusterau cymunedol?<br><br>**5. Man Agored** |

| | |
|---|---|
| 5.2 What role does community engagement play in the assessment, protection and enhancement of open space?<br><br>5.3 How do the policies distinguish between the functional, amenity and qualitative value of open spaces, and how are these considerations weighed in decision-making?<br><br>**6. Placemaking**<br><br>6.1 Is the Plan sufficiently clear on the distinction between placemaking and place plans?<br><br>6.2 Is the term 'Place Plan' more appropriate than Placemaking Plans in Policy SP7?<br><br>6.3 Whilst recognising the importance of placemaking and the Placemaking Wales Charter, is there a more specific resource on place plans that could be referenced in paragraph 6.72?<br><br>**7. Action Points** | 5.1 Pan fo datblygiad yn effeithio ar fannau agored presennol, sut mae'r Cynllun yn sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth unioni yn briodol o ran maint, ansawdd, hygyrchedd a lleoliad?<br><br>5.2 Pa rôl mae ymgysylltu â'r gymuned yn ei chwarae wrth asesu, diogelu a gwella mannau agored?<br><br>5.3 Sut mae'r polisïau yn gwahaniaethu rhwng swyddogaeth, amwynder a gwerth ansoddol mannau agored, a sut mae'r ystyriaethau hyn yn cael eu pwysoli wrth wneud penderfyniadau?<br><br>**6. Creu Lleoedd**<br><br>6.1 A yw'r Cynllun yn ddigon clir ar y gwahaniaeth rhwng creu lleoedd a chynlluniau bro?<br><br>6.2 A yw'r term 'Cynllun Bro' yn fwy priodol na Chynlluniau Creu Lleoedd ym Mholisi SP7?<br><br>6.3 Wrth gydnabod pwysigrwydd creu lleoedd a Siarter Creu Lleoedd Cymru, a oes adnodd mwy penodol ar gynlluniau bro y gellid cyfeirio ato ym mharagraff 6.72?<br><br>**7. Camau Gweithredu** |